

Cwestiynau Cyffredin

Beth mae Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei olygu i mi fel claf?



Beth yw'r Ddeddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016?

Daeth Deddf Lefel Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i rym ym Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn golygu bod gan y byrddau iechyd/ymddiriedolaeth:

- ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau lefel briodol o staff nyrsio ym mhob lleoliad;
- dyletswydd gyfreithiol i gyfrifo a chynnal y lefel briodol o staff nyrsio ar wardiau meddygol a llawfeddygol aciwt ar gyfer oedolion; a
- dyletswydd gyfreithiol i adrodd ar gydymffurfio â gofynion staffio a gweithredu os nad yw lefelau staff nyrsio'n cael eu cynnal.

Beth mae lefel staff nyrsio'n ei olygu?

Y lefel staff nyrsio yw nifer y staff sydd eu hangen gan ward i alluogi'r tîm i ddarparu gofal i'r cleifion mewn ffordd sydd yn ystyried anghenion nyrsio'r cleifion.

Sut mae'r lefel staff nyrsio ar gyfer ward yn cael ei benderfynu?

Yng Nghymru rydym yn defnyddio nifer o offer i asesu beth ddylai'r lefel staff nysio fod ar gyfer wardiau gwahanol.

Mae'r lefel staff nyrsio'n amrywio o ward i ward, yn dibynnu ar nifer y cleifion a'r math o nyrsio sydd ei angen ar y cleifion hynny. Mae gan ofal dwys, er enghraifft, gymhareb uwch o nyrsys i gleifion na ward feddygol neu lawfeddygol.

Ar rhai wardiau gall y lefel staff nyrsio amrywio o ddydd i ddydd yn dibynnu sut mae'r ward yn gweithio, er enghraifft, mae gan rai wardiau llawfeddygol fwy o gleifion ar y ward sydd yn cael llawdriniaeth rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener o'i gymharu â Dydd Sadwrn a Dydd Sul felly mae mwy o staff ar ddyletswydd yn ystod yr wythnos o'i gymharu â'r penwythnos.

Rydym yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau gwahanol ac mae'r wybodaeth yma'n ein helpu i benderfynu beth ddylai'r lefel staff nyrsio fod. Ynq Nghymru, mae'r wybodaeth yr ydym yn ei defnyddio yn cynnwys:

- Ddefnyddio offeryn o'r enw "Lefelau Gofal Cymru"; rydym yn gweld pa mor sâl neu ddibynnol y mae cleifion ar y ward benodol honno a lefel y gofal sydd ei angen arnynt.
- Edrych ar y wybodaeth sydd gennym yn barod ar ddiogelwch ac ansawdd pob gwasanaeth, a'r profiad a nodwyd gan bobl.
- Cymhwyso safbwynt proffesiynol yr uwch nyrsys sydd yn adnabod y wardiau a lefel angen y cleifion. Rydym yn monitro nid yn unig nifer y nyrsys cofrestredig ar ddyletswydd ar bob ward ond hefyd lefel y sgiliau nyrsio sydd eu hangen, yn ogystal â staff cymwys eraill sy'n darparu gofal ar gyfer cleifion, er enghraifft, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol.

Pa mor aml bydd y lefel staff nyrsio'n cael ei adolygu?

Bydd pob bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth yn edrych ar y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward:

- bob chwe mis;
- os bydd rhywbeth yn newid ar y ward, er enghraifft, os oes newid yn y grŵp o gleifion sydd yn derbyn gofal ar y ward neu nifer y gwelyau sy'n cael eu defnyddio ar y ward; neu
- os yw'r tîm nyrsio o'r farn bod angen cynnal adolygiad am unrhyw reswm.

Cyflwynir y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward i'r Bwrdd yn flynyddol.

Pwy sy'n gyfrifol am benderfynu beth ddylai'r lefel staff nyrsio fod ar gyfer pob ward?

Gwneir y penderfyniad ynghylch y lefel staff nyrsio ar gyfer pob ward gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio yn y pen draw ar ran y bwrdd iechyd/ymddiriedolaeth, ond gwneir y penderfyniad yn dilyn trafodaethau gyda'r tîm nyrsio sy'n gyfrifol am y ward, yn cynnwys y nyrsys ar y ward a rheolwr y ward.

Sut mae byrddau iechyd/ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y lefel staff nyrsio ar gyfer ward yn cael ei gynnal?

Bydd rheolwr y ward yn sicrhau bod nifer y staff ar ddyletswydd yn adlewyrchu'r hyn y dylai'r lefel staff nyrsio fod ar gyfer bob dydd ar gyfer y ward honno a byddant yn hysbysu'r uwch nyrs os oes unrhyw fylchau.

Caiff gwybodaeth am nifer y nyrsys a'r staff gofal a ddylai fod yn gweithio ar bob sifft ei harddangos ar bob ward.

Mae'r tîm nyrsio'n adolygu ac yn cofnodi'r amserau y gwnaeth nifer y nyrsys oedd ar ddyletswydd amrywio o'r lefel staff nyrsio a pha gamau a gymerwyd mewn ymateb i hyn. Bydd y tîm nyrsio hefyd yn ystyried a oedd peidio cynnal y lefel staff nyrsio wedi cael unrhyw effaith ar y gofal a ddarparwyd i'r cleifion ar y ward ar y pryd.

Beth sy'n digwydd ar y ward pan fydd bwlch o ran staffio?

Ceir adegau pan fydd y lefel staff nyrsio ar ward yn is na'r hyn a gynlluniwyd oherwydd salwch annisgwyl staff neu resymau eraill y tu hwnt i'r rheolaeth ni.

Pan fydd hyn yn digwydd, bydd y nyrs gyfrifol yn ceisio llanw'r sifft trwy ofyn i staff newid eu sifft lle y bo'n bosibl. Os oes bwlch o hyd, bydd y nyrs gyfrifol yn trosglwyddo hyn i'r uwch nyrs ar ddyletswydd fydd yn ystyried cynnig oriau ychwanegol neu oramser i staff i lenwi'r bwlch a bydd yn ystyried y posibilrwydd o symud staff o gwmpas rhwng wardiau ac adrannau. Mae uwch nyrs ar ddyletswydd 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar bob safle ysbyty y mae eu rôl yn cynnwys rheoli staff nyrsio a sicrhau bod y lefelau staff nyrsio'n cael eu cynnal. Bydd yr uwch nyrs hefyd yn ystyried a oes angen i ni ddefnyddio staff o'n banc nyrsys ysbyty neu o asiantaeth nyrsio. Os nad yw'r bwlch o ran staffio wedi ei lenwi, bydd yr uwch nyrs yn trosglwyddo hyn i'r uwch reolwr nyrsio ac yn trafod pa gamau pellach sydd angen eu hystyried.

Yn y tymor byr, efallai fydd yn rhaid i nyrsys ar y ward weithio mewn ffordd wahanol a chanolbwyntio ar ofal hanfodol er mwyn cynnal diogelwch cleifion.

Beth mae'n ei olygu os oes mwy o staff nag sy'n ofynnol yn unol â'r lefel staff nyrsio ar ddyletswydd ar sifft?

Mae rheolwr y ward a'r uwch nyrs yn asesu anghenion cleifion ar y ward yn barhaus a gall mwy o staff ar ddyletswydd ar y ward fod oherwydd cynnydd yn anghenion gofal cleifion, er enghraifft, lle gall fod angen gofal nyrsio un i un ar glaf neu lle mae cyflwr claf wedi gwaethgu. Ar yr adegau hyn, a lle bo angen, gellir gofyn i staff weithio oriau ychwanegol neu oramser i lenwi'r bwlch, neu gellir gwneud cais am staff dros dro.

Am fwy o wybodaeth am lefelau staffio yn ein hysbytai neu os oes gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau am y lefel staff nyrsio neu'r gofal yr ydych yn ei gael ar y ward, siaradwch â rheolwr y ward.